# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2021

Amser: 13.30 - 16.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/11082) yn:

http://senedd.tv/cy/11082

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Mandy Jones AS |
| Tystion: | Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Llinos Medi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Sam Rowlands |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - sesiwn dystiolaeth 1: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
- Y Cynghorydd Sam Rowlands, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Chris Llewelyn, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.2 Yn ystod y cyfarfod cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gadarnhau a oes asesiad ar gael o'r effaith y mae siopau gwag wedi'i chael ar y refeniw a gasglwyd o ardrethi annomestig ers dechrau'r pandemig ac i chwilio am wybodaeth am y rhyddhad sydd ar gael i fusnesau bach.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â data cwynion y GIG

3.1.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â data cwynion y GIG.

### 3.2 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch diogelwch tân mewn?adeiladau uchel iawn

3.2.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn.

### 3.3 Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn perthynas ag effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol

3.3.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn perthynas ag effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol.

### 3.4 Llythyr oddi wrth Sefydliad Bevan at y Prif Weinidog mewn perthynas â thlodi a COVID-19

3.4.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Sefydliad Bevan at y Prif Weinidog mewn perthynas â thlodi a COVID-19.

### 3.5 Cyflwyniad gan Sefydliad Bevan ynghylch tlodi yn y gaeaf a COVID-19

3.5.a. Nododd y Pwyllgor y cyflwyniad gan Sefydliad Bevan mewn perthynas â thlodi yn y gaeaf a COVID-19.

### 3.6 Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch y Bil Cam-drin Domestig

3.6.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch y Bil Cam-drin Domestig.

### 3.7 Llythyr ar y cyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

3.7.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr ar y cyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - trafod y dystiolaeth

5.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol - trafod yr adroddiad drafft

6.1. Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a nifer o newidiadau.

## 7 Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro

7.1. Trafododd y Pwyllgor y cynnig drafft, yr adroddiad drafft a’r telerau ac amodau drafft ar gyfer penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro, gan gytuno arnynt.

## 8 Trafod y llythyr drafft at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch cysgu ar y stryd yng Nghymru

8.1. Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gan gytuno arno, yn ddarostyngedig i fân newidiadau.